

BRYAN, ROBERT (1858 - 1920), bardd a cherddor

Enw: Robert Bryan
Dyddiad geni: 1858
Dyddiad marw: 1920
Rhiant: Elinor Bryan
Rhiant: Edward Bryan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd a cherddor
Maes gweithgaredd: Cerddoriaeth; Barddoniaeth
Awduron: Edward Morgan Humphreys, Robert Thomas Jenkins

Ganwyd 6 Medi 1858 yn Camddwr, Llanarmon yn Ial, sir Ddinbych, mab Edward ac Elinor Bryan. Bu'n ddisgybl ac yn ddisgybl-athro yn Ysgol Frutanaidd Wrecsam. Aeth i Goleg Normal Bangor ac oddi yno yn athro i'r T -gwyn-ar-Daf, Corwen, a Thalsarn, Sir Gaernarfon. Bu am dymor yng Ngholeg Aberystwyth ac aeth oddi yno i Rydychen, ond cyn cymryd ei arholiadau terfynol am raddau B.A. a Mus. Bac. yn 1893 torrodd ei iechyd a bu'n rhaid iddo ymneilltuo i Wrecsam a Marchwiel, lle bu'n byw hyd 1903. Yn y flwyddyn honno symudodd i Gaernarfon i fyw ond byddai fel rheol yn treulio ei aeafau yn yr Aifft lle'r oedd ei frodyr, Edward a Joseph, mewn masnach. Cyhoeddodd gyfrol o'i farddoniaeth, *Odlau Cân*, yn 1901, a chyhoeddwyd cyfrol arall, *Tua'r Wawr* yn 1921, flwyddyn ar ol ei farwolaeth. Cyfansoddodd gryn lawer o gerddoriaeth; efallai mai ei rangan i gorau meibion, 'Y Teithiwr Blin,' yw y darn mwyaf adnabyddus o'i waith. Golygodd *Alawon y Celt* (d.d.), dau ddetholiad o geinciau'r cenedloedd Celtaidd. Bu farw yn Cairo 5 Mai 1920, a chladdwyd ef yno. Ni bu yn briod.

Haedda eraill o'r teulu hwn sylw. Yr hynaf o'r brodyr oedd JOHN DAVIES BRYAN (bu farw 13 Tachwedd 1888), a agorodd siop fechan yng Nghairo yn 1886; ymunwyd ag ef yn bur fuan gan yr ail frawd Joseph Davies Bryan, ac yn 1888 gan y trydydd, EDWARD DAVIES BRYAN (bu farw 1929). Llwyddasant yn hynod; agorasant siopau mawrion yng Nghairo ac Alexandria, a changhennau yn Port Said a Khartoum, a chymaint oedd ffydd y brodorion ynndynt fel y rhoddai'r Arabiaid symiau dirfawr o aur yn eu gofal, heb unrhyw sicrwydd mewn ysgrifen, yn hytrach na'u hymddiried i'r banciau. Caewyd y fusnes yn 1934.

Daeth JOSEPH DAVIES BRYAN (bu farw 1 Mawrth 1935 yn Alexandria yn 71 oed) yn aelod blaenllaw o Brydeinwyr yr Aifft; ef o yn 1923-4 oedd llywydd y 'British Chamber of Commerce' yno, a llywydd Prydeinwyr Alexandria yn yr un cyfnod. Bu'n fyfyrwr yng Ngholeg Aberystwyth, a daeth yn un o noddwyr haelaf y coleg - yn 1929 cyflwynodd iddo tua 85 erw o dir ar fryn uwchlaw'r dref, ar draul o bron £15,000, at godi adeiladau newyddion. Cafodd radd LL.D. gan Brifysgol Cymru yn 1933.

Cyhoeddwyd llythyrau John D. Bryan i'r *Genedl Gymreig* (1887) yn gyfrol, gan ei frawd Robert (*O'r Aifft*, Wrecsam, 1908), gyda byrgofiant. Cyhoeddodd Joseph ysgrifau yn *The Bible in the World* (1931).

Awduron

Edward Morgan Humphreys, (1882 - 1955)

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Cymru (O.M.E.), Tachwedd 1920

W. A. Lewis, '[Anrhydedd y brodyr Davies Bryan yng Nghymru ac yng Ngwlad yr Aifft](#)', *Y Ford Gron: Papur cymru'r byd*, Mehefin 1935

gwybodaeth gan W. A. Lewis, Lerpwl

O'r Aifft (Wrecsam 1908)

The Times, 2 Mawrth 1935

gwybodaeth deuluol gan Mr. Leonard Owen

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Robert Bryan](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q7342477](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

